# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 11eg Ebrill, 2022**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffith (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Ymddiheuriadau Y Cynghorydd Elin Hughes
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

## 119. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

## 120. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddatganiad.

## 121. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 11eg MAWRTH, 2022

**Cyflwynwyd,** cadarnahwyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Mawrth, 2022. Cynigiwyd gan Y Cynghorywdd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts, a phawb yn eu derbyn.

**Materion yn codi**

a) **Eitem 110 – Ceisiadau Cynllunio – cymal ynglyn a chais C21/0266/32/LL – Minffordd, Bryncroes**

**Adroddodd** y Clarc nad oedd wedi derbyn dim ymateb i'r ymholiad ynglyn a'r cais uchod. Dywedodd y Cadeirydd iddo gael ar ddeall gan yr ymgeisydd fod caniatad bellach wedi ei dderbyn.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

b) **Eitem 111 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

(i) **Cymal (a) – cais am ganllaw ar y gamfa I Eglwys St. Mair Bryncroes**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn atebiad gan y Swyddog Llwybrau y byddai'n cael golwg ar y gamfa ac yn adrodd yn ôl iddi.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

(ii) **Cymal (b) – ymestyn yr arwyddo 40mya ar y briffordd o Benygroeslon am Sarn Mellteyrn**

**Cyflwynwyd** ymateb Rheolwr Traffig a Phrojectau Cyngor Gwynedd i'r Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, fel a ganlyn:

"Mae gan y Gwasanaeth hwn her enfawr o'n blaenau i newid nifer fawr o'r cyfyngiadau 30mph presennol i 20mph ar draws y sir. Er tegwch i bobl Wynedd, sy'n defnyddio'r rhwydwaith y ffyrdd pob diwrnod, mae angen i ni sicrhau bod adnoddau priodol yn ei le i sicrhau bod y cynllun yn gywir ac fel bod y cyhoedd yn medru ymddiried yn y ffordd mae'r gwasanaeth yn cyflwyno cyfyngiadau ar y ffordd. Wrth gwrs, mae'r gwasanaeth wedi cynnig i edrych i mewn i gyfyngiadau cyflymder tu allan i bentrefi/drefi ar ôl mis Ebrill 2023. Mae croeso i chwi cysylltu yn ôl a ni i drafod y cynllun pryd hynny.  . Mae'r cynllun 40mph yn Llwynhudol yn

gynllun sydd wedi bod ar y gweill ers bron i 3 mlynedd!. Gosod yr arwyddion wrth gwrs yw'r cam olaf yn y broses."

**(iii) Yna dyma'r atebiad o berthynas i oryrru i lawr allt Sarn Mellteyrn:**
"Wrth gwrs, mae problem goryrru i lawr yr allt i mewn i Sarn yn gonsyrn i ni fel y Cyngor ag hoffwn eich hysbysu y byddwn yn trefnu i 'Ganbwyllt/Gosafe' i roi sylw penodol i'r safle"
**Penderfynwyd** nodi'r atebion.

(iv) **Goryrru ar y briffordd drwy Benygroeslon**
**Deallwyd** fod presenoldeb yr Heddlu wedi bod yn yr ardal yn ddiweddar.
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

**c) Eitem 116 – Meddygfa Rhydbach, Botwnnog**
**Derbyniwyd** ymateb gan Mabon ap Gwynfor, Aelod Seneddol dros Ddwyfor/Meirionnydd fel a ganlyn:
"Diolch am eich e-bost yn codi pryderon ynglŷn a Meddygfa Botwnnog. Fel i chi nodi yn eich llythyr, rwyf innau yn gweld o'r gwaith achos sydd yn dod i'm swyddfa fod pwysau eithriadol ar y Gwasanaeth Iechyd drwyddi draw. Serch hyn, mae'n holl bwysig ein bod yn sicrhau gwasanaethau gwledig efo cyrhaeddiad ar draws yr etholaeth.
Rwy'n falch o glywed eich bod yn barod a pherthynas a'r feddygfa a diolch i chi am eich gwaith da yn eich cymuned.
Byddaf yn ysgrifennu at Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader yn y man i godi eich pryderon yn uniongyrchol a Jo Whitehead – eu Prif Swyddog Gweithredol. Unwaith y daw ymateb byddaf yn cysylltu yn ôl a chi."
**Penderfynwyd** nodi'r atebiad.

## 122. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** y cais a ganlyn:
Cais C22/0271/32/AC – diwygio'r amodau canlynol ar ganiatad cynllunio C14/1175/32/LL: 2 – diwygio edrychiadau a gosodiad mewnol; 2, 8 a 9 ymestyn cyfnod cyflwyno gwybodaeth; ynghyd a dileu amod 4 yn ymwneud a gorffeniad allanol – Capel Bethel, Bryncroes.
**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

## 123. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Rheolwr Traffig a Phrojectau Cyngor Gwynedd at y pryder sy'n bodoli gan berchennog Crugeran at y goryrru sy'n digwydd ger y fferm ac yn gofyn am gefnogaeth i ymestyn yr arwydd 30mya.

**Yn y cyswllt hwn:**

**a)** nodwyd y byddai gwaharddiad traffig trwodd dros dro o'r gyffrodd ger Caerllo i fynedfa Tre Wen, Botwnnog at 19eg Ebrill, 2022.

**b)** Gwnaed ymholiadau beth oedd yn digwydd gyda Chomin Bryncroes – sylwyd fod yr adeiladau dros dro wedi eu symud ond nad oedd dim wedi ei wneud i ddod a chyflwr y tir yn ôl i'w gyflwr blaenorol. Adroddodd y Clarc iddi ysgrifennu nifer o weithiau at y Cwmni Clayton ond yn anffodus nid oedd atebion i'r llythyrau.
**Penderfynwyd** ysgrifennu unwaith yn rhagor gan anfon copi i ADRA gan ofyn atebiad erbyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

## 124. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

**Cyflwynwyd** ceisiadau am gyfraniadau ariannol a **phenderfynwyd** fel ganlyn:

a) Cyfrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfeillion Eglwys Llandegwnning | £125 (siec 200750) |
| Elusen Plant gyda Chancr | £100 (siec 200751) |
| O Ddrws i Ddrws | £100 (siec 200752) |

Ty Gobaith £ 50 (siec 200753)

b) Peidio cyfrannu i'r rhai a ganlyn:
Amgueddfa Forwrol Llyn
Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen 2022

*Yn y cyswllt hwn*, derbyniwyd cydnabyddiaeth gan Nia Griffith ar ran Pwyllgor Cronfa Leol Ardal Botwnnog fel a ganlyn:

"Hoffwn ddiolch yn fawr i chi ar ran Pwyllgor Cronfa Leol Ardal Botwnnog am y cyfranniad hael o £2000 tuag at Eisteddfod 2023.
Mae'n braf nodi ein bod yn ardal Botwnnog, bellach wedi cyrraedd 46% o'r £7500 sydd wedi ei osod fel targed, ac mae llawer o weithgareddau amywiol ar y gweill dros y flwyddyn nesaf er mwyn casglu'r hyn sydd yn weddill erbyn Eisteddfod 2023.
Diolch eto am eich cefnogaeth."

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

(Nodyn – nid oes cofnod o gydnabyddiaeth yn cael ei nodi yn arferol gan mai ar y slip sydd ynglwm a'r llythyr anfon siec sydd yn cael ei dderbyn).

125. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:
Cwmni Yswiriant Zurich £791.09 (siec 200754)

Nodwyd fod yr atodlen wedi ei hanfon allan i bob aelod gyda'r rhaglen yn dangos y symiau a yswiriwyd gan ofyn os oedd unrhyw fater angen sylw fod y cyfryw yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn – ni dderbyniwyd unrhyw sylw.

126. **ARCHWILIO'R CYFRIFON 2020/21**

**Cyflwynwyd** adroddiad y Clarc ei bod yn pryderu'n fawr nad oedd canlyniad archwiliad y cyfrifon 2020/21 byth i law. 'Roedd wedi anfon nodyn atgoffa nifer o weithiau ac wedi cael cais am ragor o wybodaeth ar 19eg Tachwedd, 2021 gan Swyddog o Archwilio Cymru ac i'r wybodaeth hynny gael ei anfon yn syth yn ôl. Er anfon nifer o e-byst yn dilyn hynny daeth atebiad gan Reolwr Archwilio y Cwmni ar 30ain Mawrth, 2022:

"Rwy'n adolygu ffeil archwilio Botwnnog. Ymddiheuriadau am yr oedi. Nododd ein tîm cymorth archwiliad 2019-20 fel un anghyflawn ac roeddem yn aros am bapurau pellach gan BDO. Rwyf bellach wedi dod o hyd i gyfrifon 2019-20 wedi'u cwblhau felly gallaf gwblhau archwiliad 2020-21."

Ond gofynnodd am gwestiwn arall:

"Mae gennyf un cwestiwn ynglŷn â'r trosglwyddiad o £1,000 o gyfrif y fynwent i'r cyfrif cyfredol. A fyddech cystal ag egluro i mi beth yw cyfrif y fynwent? A yw'r Cyngor yn gweithredu mynwent? A yw'r Cyngor yn berchen ar gyfrifon cronfa'r fynwent?"

Atebwyd y cwestiwn hwn ac yna daeth dau e-bost arall ynglyn a'r ffurflen flynyddol – atebwyd hyn ar 4ydd Ebrill, 2022 ond heb dderbyn dim gwybodaeth pellach gan yr Adran.

Adroddodd y Clarc ei bod yn pryderu'n fawr ynglyn a hyn gan fod yr Archwiliwr Mewnol wedi cadarnhau fod popeth mewn trefn ac hefyd fod y banc a'r hyn a wariwyd ac a dderbyniwyd yn cydfynd – teimlad braidd yn angyfforddus!

Adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans, cynrychiolydd ar Bwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais fod hyn wedi ei grybwyll noson y cyfarfod diwethaf ac i'r mwyafrif o'r Cynghorau ddweud eu bod yn dal i ddisgwyl am ganlyniad yr archwiliad. Awgrmwyd fod y Clarc yn anfon gair at Mel abOwain o Un Llais Cymru i ofyn am ei arweiniad a **phenderfynwyd** gweithredu'n unol a'r awgrymiad.

127. **ENWEBIADAU AR GYFER AELODAETH Y CYNGOR**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn gwybodaeth fod y rhai canlynol wedi eu henwebu i gynrychioli'r gwahanol wardiau:

| | |
|---|---|
| Bryncroes | Dylan Parry Jones |
| | William Michael Strain |
| | 2 sedd wag |
| Sarn Mellteyrn | Elin Wyn Hughes |
| | 2 sedd wag |
| Botwnnog | Glyn Roberts |
| | Carys Eilwen Williams (gweler y paragraff isod) |
| | Glenys Williams |
| | 1 sedd wag |

Nododd Carys Eilwen Williams mai cynrychioli ward Sarn Mellteyrn oedd ei dymuniad a dywedodd y Clarc y byddai'n cysylltu a'r Swyddog Etholiadol.

Gwnaed ymholiadau gyda'r Swyddog a dywedodd "Roedd Carys Eilwen Williams wedi nodi 'Pen Draw Llyn' fel y ward perthnasol! Gallwn symud hi i ward Sarn."

Yn wyneb hyn bydd un sedd wag yn Ward Sarn Mellteyrn a 2 sedd wag yn Ward Botwnnog.

Deallwyd gan y Swyddog Etholiadol y bydd angen rhoi arwyddion yn hysbysebu'r seddau gwag hyn yn dilyn yr etholiad ar 5ed Mai, 2022.

Nododd rhai o'r aelodau presennol iddynt fethu rhoi eu papurau enwebu i mewn yn yr amser penodol ond eu bod yn dymuno cael eu hail-ethol os byddai cyfle.